Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

YSGOL LLAN-Y-PWLL

Dyddiad cymeradwyo'r polisi gan y bwrdd Llywodraethwyr	26/5/2022
Dyddiad adolygiad	26/5/2025
Arwyddwyd (Cadeirydd y Llywodraethwyr	
Arwyddwyd (Pennaeth)	

Cyflwyniad

Sut gafodd y polisi hwn ei greu?

Cafodd y polisi hwn ei greu mewn partneriaeth gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Cydlynydd ADY, Llywodraethwr ADY, staff cynrychioli, rhieni/gofalwyr a phlant/pobl ifanc. Mae'r polisi yn adlewyrchu'r Cod ADY (2021).

Sut mae rhieni yn gallu cael mynediad i'r polisi hwn?

Mae rhieni yn gallu gweld copi o'r polisi hwn ar wefan eu hysgol neu gellir gofyn am gopi caled gan swyddfa'r ysgol. (A fyddech cystal â hysbysu'r ysgol os byddwch angen i'r polisi fod ar gael i chi mewn fformat gwahanol).

Cyd-destun

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio gyda gofynion statudol yn y Cod ADY (2021) ac mae wedi cael ei ysgrifennu gan gyfeirio at y canllawiau a dogfennau perthnasol canlynol **er enghraifft**

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Polisi Diogelu
- Polisi Derbyn
- Polisi Ymddygiad
- Polisi Presenoldeb
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Ethos

I blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol:

- Mae holl blant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion ac mae eu hamrywiol anghenion yn cael eu trin gyda sensitifrwydd ac yn effeithiol. Rydym yn credu fod pob plentyn yn derbyn cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol gan sicrhau hunan-barch a hyder a'u bod yn datblygu agwedd gadarnhaol.
- Rydym wedi ymrwymo i lwyddo i gynnwys disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). O fewn ein hysgol, mae pob athro yn athro ar bob disgybl, gan gynnwys y sawl ag ADY gan gynnwys plant a phobl ifanc gydag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.
- Rydym yn anelu i hybu a chynnal agwedd ysgol gyfan tuag at les, sy'n cydnabod y cysylltiadau cryf rhwng lles a deilliannau i'n plant a phobl ifanc.
- Mae pob plentyn yn gyfartal, yn cael ei werthfawrogi ac yn unigryw. Rydym yn anelu i ddarparu amgylchedd ble mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffynnu. Byddwn yn ymateb i unigolion mewn ffyrdd sy'n cymryd i ystyriaeth eu hamrywiol brofiadau bywyd ac anghenion penodol.
- Rydym wedi ymrwymo i ddarparu addysg sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd fel eu bod yn cyflawni eu gorau, yn dod yn unigolion mwy hyderus yn byw bywydau cyflawn ac yn symud i fod yn oedolyn yn llwyddiannus.

- Rydym wedi ymrwymo i hybu a darparu addysg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bob plentyn a phobl ifanc, gan roi sylw i'r hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau hawliau'r plant yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Nodau ac Amcanion

Fel ysgol, byddwn yn:

- datblygu darpariaeth ysgol gyfan effeithiol i blant a phobl ifanc ym mhob maes ble mae yna angen.
- cymryd barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc i ystyriaeth a sicrhau eu bod yn cyfrannu'n llawn ble bo'n bosibl.
- cydnabod barn rhieni/gofalwyr i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n llawn at wneud penderfyniadau.
- sicrhau proses eglur ar gyfer nodi, asesu, cynllunio, darparu ac adolygu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol gyda nhw a'u rhieni/gofalwyr yn y ganolfan.
- darparu cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys i gynnwys holl blant a phobl ifanc ar bob lefel a hybu diwylliant dysgu cynhwysol.
- sicrhau darpariaeth gyfartal i holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys ond nid yn unig i'r sawl ag ADY;
- galluogi plant a phobl ifanc gydag ADY i gyflawni eu potensial;
- darparu a chael mynediad i gyngor a chefnogaeth i holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY.

Partneriaeth gyda Rhieni/Gofalwyr

Mae'r plentyn yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud a byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i gyflawni'r deilliannau gorau i'w plant.

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal perthnasoedd gwaith da gyda theuluoedd holl ddisgyblion ac mae'n cydnabod pwysigrwydd partneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae rhieni yn cael eu hysbysu am gynnydd plant ac yn cael eu hannog i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant a chefnogi targedau a osodwyd.

Dylai rhieni gyda phryderon am eu plant drafod y rhain yn gyntaf gyda'r athro dosbarth fydd yn hysbysu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol os bydd angen. Mae rhieni yn cyfrannu'n llawn at y broses adolygu. Mae gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau hygyrch a rhoddir digon o rybudd am gyfarfodydd i alluogi rhieni/gofalwyr gael amser i baratoi.

Cyfranogiad Disgybl:

Mae barn pob disgybl yn cael ei werthfawrogi. Mae dull canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu drwy ein hysgol, gan roi'r plentyn/person ifanc yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae disgyblion gydag ADY yn cael eu cefnogi i gyfrannu at wneud penderfyniadau a gallu mynegi eu pryderon.

Diffiniad o ADY

Yn ein hysgol rydym yn defnyddio'r diffiniad o ADY o'r Cod (Drafft 2021)

Anghenion Dysgu Ychwanegol

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddi neu ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un ai yw'r anhawster dysgu neu anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu beidio) sy'n galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol.

Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd os yw ef neu hi -

(a) yn ei chael yn llawer anoddach dysgu na mwyafrif y disgyblion eraill o'r un oedran; neu

(b) ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw ef neu hi yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol.

(4) Nid oes gan unigolyn anhawster neu anabledd dysgu oherwydd bod yr iaith (neu math o iaith) y byddai'n cael ei ddysgu yn wahanol i iaith (neu fath o iaith) sydd wedi neu yn cael ei defnyddio gartref yn unig.

Rolau a Chyfrifoldebau

Bydd Llywodraethwyr yn sicrhau:

- bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei gwneud ar gyfer unrhyw ddisgybl gydag ADY;
- bod holl staff yn ymwybodol o'r angen i nodi a darparu ar gyfer disgyblion gydag ADY;
- disgyblion ag ADY yn ymuno â gweithgareddau'r ysgol gyda disgyblion eraill, mor bell ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ac yn cydweddu â'u hanghenion ac addysg effeithiol disgyblion eraill;
- mae rhieni yn cael eu hysbysu os bydd yr ysgol yn penderfynu gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol i'w plant.
- maent yn cael eu hysbysu'n llwyr am faterion ADY, fel y gallant chwarae rhan allweddol yn hunanadolygiad yr ysgol;
- mae yna gyfarfodydd bob tymor rhwng y Cydlynydd ADY;
- Mae'r Polisi ADY yn ddarostyngedig i gylch blynyddol o fonitro, gwerthuso ac adolygu o dan arweiniad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth gan gynnwys y Llywodraethwr Cyswllt a chymeradwyir gan y Corff Llywodraethu Llawn.

Llywodraethwr Cyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol: - Cynghorydd Becca Martin

Pennaeth / Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae gan y Cydlynydd ADY linell cyfathrebu clir i'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae'n eu cefnogi yn eu rôl. Bydd hyn yn galluogi ein hysgol i gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau i nodi a bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. I ddechrau, yn ystod blwyddyn agoriadol yr ysgol, y pennaeth fydd Cydlynydd ADY yr ysgol.

Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynydd ADY)

Mae rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi bod yn statudol ers mis Ionawr 2021. Fel y nodir ym Mhennod 8 o'r Cod ADY (2021), mae'r Cydlynydd ADY yn gyfrifol am:

- oruchwylio gweithrediad polisi ADY yr ysgol o ddydd i ddydd;
- cydlynu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol;
- sicrhau fod gan holl ddysgwyr gydag ADY yn ein hysgol Gynllun Datblygu Unigol;
- nodi ADY disgybl a chydlynu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol sy'n bodloni'r anghenion hynny;
- nodi person dynodedig i gydlynu'r camau er mwyn gwneud penderfyniad ADY, os bydd angen Cynllun Datblygu Unigol, bod yn gyfrifol am ei baratoi;
- sicrhau gwasanaethau perthnasol fydd yn cefnogi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol disgybl fel bo'r angen;
- cadw cofnodion o benderfyniadau am ADY a Chynlluniau Datblygu Unigol;
- hybu cynhwysiant disgybl yn ein cymuned ysgol a chael mynediad i'r cwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgwricwlar, gan ystyried y farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a rhiant y plentyn;
- monitro effeithiolrwydd unrhyw Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol, adolygu ac addasu yn unol â hynny;
- cynghori athrawon ynghylch dulliau addysgu gwahaniaethol priodol ar gyfer unigolion gydag ADY;
- goruchwylio a threfnu hyfforddiant dysgu gweithwyr cefnogi sy'n gweithio gyda disgyblion ag ADY;
- cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon;
- dal i fyny gyda'r canllawiau diweddaraf, cefnogaeth a thystiolaeth arfer orau sydd ar gael ar gyfer ADY.

Cyfrifoldebau eraill Cydlynydd ADY

Yn ogystal â'r tasgau gorfodol uchod, **dylai'r** Cydlynydd ADY hefyd:

- oruchwylio darparu dogfennau, hysbysiadau neu wybodaeth i blentyn neu riant plentyn
- goruchwylio gweithrediad trefniadau o ddydd i ddydd y sefydliad addysg ar gyfer ADY;
- goruchwylio'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar draws y sefydliad addysg i gwrdd ag anghenion a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Unigol.
- sicrhau bod adolygiadau rheolaidd o'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a wnaed i ddysgwyr yn eu sefydliad yn cael eu cynnal, a ble bo'n briodol yn arwain

y broses adolygu i sicrhau bod darpariaeth yn parhau i fodloni anghenion dynodedig.
- sicrhau y caiff Cynlluniau Datblygu Unigol eu datblygu a'u hadolygu'n briodol;
- cefnogi dysgwyr gyda Chynllun Datblygu Unigol wrth bontio rhwng lleoliadau addysg;
- goruchwylio trosglwyddiad gwybodaeth briodol rhwng lleoliadau addysg ynglŷn â Chynllun Datblygu Unigol a Chynllun Dysgu Uwch y dysgwr.
- cysylltu gyda swyddogion arholiadau ac athrawon arbenigol wrth geisio addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau;
- cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad gweithdrefnau a systemau ADY priodol o fewn y lleoliad addysg, gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, defnydd effeithiol o adnoddau a chasglu a dadansoddi data, gyda'r bwriad o sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr gydag ADY;
- bod yn ffynhonnell arbenigedd ar ADY drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- bod yn gyfarwydd â'r canllawiau a chefnogaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer ADY;
- datblygu eu dysgu proffesiynol eu hunain drwy gysylltu â'r rhwydwaith lleol o Gydlynwyr ADY (y **dylai** awdurdodau lleol ystyried ei sefydlu a'i hwyluso) a ble bo'n briodol, ysgolion arbennig i ddatblygu a rhannu profiad ac arfer orau;
- sicrhau bod y cofnod o'u rolau a dysgu proffesiynol fel rhan o'u cofrestriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi'i ddiweddaru mewn perthynas ag ADY;
- darparu cefnogaeth broffesiynol i'r holl staff i alluogi dull adnabod, asesu a chynllunio cynnar ar gyfer dysgwyr gydag ADY, gallai hyn gynnwys cefnogi staff i reoli'r gwaith o olrhain a gosod targedau da;
- sicrhau bod y trefniadau a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol mewn perthynas ag osgoi a datrys anghysondebau yn cael eu defnyddio'n llawn fel sy'n briodol;
- gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer gwasanaethau cynnwys a chefnogi yr awdurdod lleol perthnasol, asiantaethau allanol, sefydliadau annibynnol / gwirfoddol, gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, seicolegwyr addysg ac ati.
- cysylltu gydag arbenigwyr gyrfaoedd i sicrhau fod dysgwyr gydag ADY yn derbyn cyngor gyrfaoedd priodol;
- gweithio'n strategol gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth a llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn diwallu ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf, y Cod hwn a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Enw'r Cydlynydd ADY: Mrs Rhiannon James

Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am:
- ddarpariaeth addysgu o ansawdd uchel i holl blant gan osod disgwyliadau uchel sy'n ysbrydoli, annog ac yn herio disgyblion
- asesu anghenion disgyblion a chynllunio addasiadau priodol, ymyrraeth a chefnogaeth i gydweddu'r deilliannau a nodwyd ar gyfer y disgybl
- adolygu effaith yr addasiadau, ymyrraeth a chefnogaeth hyn yn rheolaidd, gan gynnwys disgyblion ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, drwy ddarparu cwricwlwm priodol gwahaniaethol.
- cynnal cyfrifoldeb dros y plentyn, gan gynnwys gweithio gyda'r plentyn yn ddyddiol

- gwneud eu hunain yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau ADY yr ysgol ar gyfer nodi, monitro a chefnogi disgyblion gydag ADY
- cysylltu'n uniongyrchol gyda rhieni plant ag ADY
- rheoli ymddygiad yn effeithiol i sicrhau amgylchedd dysgu da a diogel

Mae Cynorthwywyr Cymorth Dysgu (CCD) a Chynorthwywyr Addysgu (CA) yn gyfrifol am:

- gefnogi grwpiau neu ddisgyblion unigol i gael mynediad i'r cwricwlwm o dan gyfarwyddyd yr athro dosbarth a/neu'r Cydlynydd ADY.
- darparu adborth i'r athro dosbarth ynglŷn â chynnydd y plentyn mewn gwersi yn y dosbarth.
- darparu adborth i'r athro dosbarth a/neu'r Cydlynydd ADY fel bo'n briodol, ynglŷn â chynnydd plentyn i gyflawni targedau unigol.
- darparu (ac adrodd yn ôl ar) raglenni ymyrraeth penodol o dan gyfarwyddyd y Cydlynydd ADY a/neu'r athro dosbarth

Darpariaeth i blant ag ADY

Mae pob ymarferydd addysgol/ysgol yn athro ar bob plentyn a pherson ifanc. Felly, mae addysgu yn gyfrifoldeb ysgol gyfan.

Darpariaeth Gyffredinol

Rydym yn mabwysiadu dull 'addysgu o ansawdd uchel'. Mae addysgu o ansawdd uchel, gwahaniaethol i ddisgyblion unigol, ar gael i holl ddisgyblion sydd gyda neu efallai heb ADY. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i gefnogi ein disgyblion.

Prif nodweddion addysgu o ansawdd uchel yw:

- Cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol gyda llawer o ymgysylltu â'r disgyblion
- Addysgu o ansawdd uchel sy'n wahaniaethol
- Disgwyliadau uchel gan bob disgybl
- Defnydd priodol o'r athro yn holi, dangos ac yn egluro

Darpariaeth Gynhwysol Wedi'i Thargedu

Bydd yna adegau pan fydd rhai o'n disgyblion angen mwy o gefnogaeth gyda'u dysgu drwy ddull a dargedwyd. Ble penderfynwyd y bydd gan ddisgybl Ddarpariaeth a Dargedwyd, byddwn yn siarad gyda'r rhieni a'u plentyn. Byddwn yn cytuno ar yr ymyrraeth a roddir ar waith, gosod targedau camau bach, yn ogystal â'r effaith a ddisgwylir ar gynnydd, datblygiad neu ymddygiad, ynghyd â dyddiad clir ar gyfer adolygu. Bydd yr athro dosbarth yn parhau'n gyfrifol am weithio gyda'r plentyn. Os bydd disgybl yn parhau i wneud cynnydd yn cael mynediad i ddarpariaeth a dargedwyd gall hyn barhau fel bo'r angen.

Penderfyniad ADY

Os na fydd disgybl yn gwneud cynnydd yn ôl y deilliannau a ddisgrifir dros gyfnod cynaliadwy o amser bydd yr ysgol yn ceisio arbenigedd arbenigol. Bydd hyn yn hwyluso darpariaeth yn y dyfodol. Gall yr ysgol gysylltu â'r gwasanaethau canlynol - Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Iechyd Ysgol, Gwasanaeth Ffisiotherapi, Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a phan fo'n briodol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Plant sy'n Derbyn Gofal.

Yna bydd y prosesau priodol fel y cofnodir yn y Cod ADY statudol yn cael eu dilyn. Os bydd yn cael ei ystyried yn briodol, bydd Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei lunio.

Adolygu

Bydd effeithiolrwydd y ddarpariaeth ac ymyrraeth a'i effaith ar gynnydd y disgybl yn cael ei adolygu ar ddyddiad y cytunwyd arno. Bydd adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael eu cynnal yn unol â phrosesau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydweithrediad, gan sicrhau bod y plentyn/person ifanc a'u teulu yn ganolog.

Bydd yr athro dosbarth neu'r athro pwnc, sy'n gweithio gyda'r Cydlynydd ADY yn adolygu'r ddarpariaeth yn sgil cynnydd y plentyn. Bydd deilliannau a grëwyd o'r adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cymryd dyheadau'r plentyn/person ifanc a'u teulu i ystyriaeth.

Rheoli anghenion disgybl / Cynlluniau Datblygu Unigol

Bydd cyfarfodydd adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ffurfiol i blant a phobl ifanc gyda Chynllun Datblygu Unigol yn cael eu cynnal, ble bydd rhieni a phlant a phobl ifanc yn cyfrannu at adolygu cynnydd a gosod deilliannau newydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae ymarferwyr ysgol yn gyfrifol am ddangos cynnydd yn ôl y deilliannau a ddisgrifir yng nghynllun y plentyn (CDU).

Cefnogi plant gyda chyflwr meddygol

Bydd pob achos yn cael ei drafod yn unigol i sicrhau bod gofal priodol a phersonol ar waith. Ble bydd gan ddisgybl ADY hefyd, bydd eu darpariaeth yn cael ei chynllunio a'i darparu mewn modd cydlynol gyda'u cynllun gofal iechyd unigol.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Cydlynydd ADY ac athro penodedig yn cyfarfod bob .... **wythnos/hanner tymor/tymor** i sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi disgyblion sy'n derbyn gofal sydd hefyd ag ADY.

Datrys Anghydfod Buan

I ddechrau gwneir ymdrech i ddatrys anghydfod am **ddarpariaeth ADY** ar lefel ysgol. Dylai rhieni sy'n anfodlon gyda'r ddarpariaeth yn yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol roi gwybod i'r athro dosbarth i ddechrau. Os byddant yn parhau'n anfodlon, yna dylent drefnu apwyntiad i weld y Cydlynydd ADY/Pennaeth. Os na fydd hyn yn llwyddo i ddatrys y broblem, gellir rhoi gwybod am y mater i

Lywodraethwr yr ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, y gellir cysylltu â nhw drwy Swyddfa'r Ysgol. Os bydd rhieni yn parhau'n anfodlon ar ôl defnyddio gweithdrefn gwyno'r ysgol, yna dylent gysylltu â'r Awdurdod Lleol am gyngor, cefnogaeth a gwybodaeth. Bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni/gofalwyr am wasanaeth datrys anghytundebau annibynnol a gomisiynir gan yr awdurdod lleol.

Os bydd anghydfod ynglŷn â **phenderfyniad ADY,** dylai rhieni/gofalwyr ddilyn y broses a nodir o fewn y llythyr penderfyniad.

Datblygu Staff

Er mwyn cynnal a datblygu ansawdd addysgu a darpariaeth i gefnogi cryfderau ac anghenion holl ddisgyblion, mae holl staff yn cael eu hannog i ymgymryd hyfforddiant a datblygiad. Mae'r Uwch Dîm Adolygu yn adolygu anghenion hyfforddiant staff drwy Reoli Perfformiad a chyfarfodydd cynnydd disgyblion i gynllunio datblygiad proffesiynol priodol mewn perthynas ag ADY.

Mae'r Cydlynydd ADY yn sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol mewn perthynas ag ADY a Chynhwysiant.

Monitro a Gwerthuso ADY

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag ADY yn fater i'r ysgol gyfan. Mae gan y bwrdd llywodraethwyr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth, gyfrifoldeb cyfreithiol i benderfynu ar y polisi a darpariaeth i ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol Mae'n rhwymedigaeth statudol i'r ysgol adolygu eu darpariaeth i sicrhau bod anghenion holl ddisgyblion yn cael eu bodloni'n effeithiol.

Trefniadau Derbyn

Dylech gyfeirio at y wybodaeth ym Mholisi Derbyn yr ysgol, y gellir ei gweld ar wefan yr ysgol. Mae trefniadau derbyn ar gyfer holl ddisgyblion yn unol â deddfwriaeth genedlaethol, gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag unrhyw lefel o ADY.

Trefniadau Pontio

Mae pontio yn cael ei drefnu'n ofalus. Er mwyn sicrhau pontio llwyddiannus o fewn yr ysgol ac o'r lleoliad/ysgol/coleg i leoliad/ysgol/coleg, bydd y person ifanc, rhieni/gofalwyr yn cyfrannu'n llawn at gynllunio i drosglwyddo i'r lleoliad newydd. Bydd gwybodaeth allweddol am ddarpariaeth ADY yn cael ei rhannu gyda'r lleoliad/ysgol/coleg nesaf drwy'r broses adolygu.

<u>Sut mae'r polisi hwn yn cael ei werthuso?</u>

Mae'r polisi hwn yn ddarostyngedig i gylch blynyddol o fonitro, gwerthuso ac adolygu o dan arweiniad yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Cydlynydd ADY a'r Llywodraethwr ADY a chymeradwyir gan y Corff Llywodraethu Llawn.

Mae'r Cydlynydd ADY, Pennaeth a Chorff Llywodraethu yn gwerthuso effeithiolrwydd y polisi yn flynyddol yn erbyn egwyddorion ac amcanion a osodwyd yn y polisi.